# Clecs Camwy

Papur Bro Dyffryn Camwy    Tachwedd 2018

**Prosiectau Olion Iaith Coleg Camwy**

Eleni mae disgyblion blwyddyn 4, 5 a 6 wedi bod yn cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol o dan y teitl 'Olion Iaith'.

Y syniad y tu ôl i'r prosiectau hyn oedd bod y disgyblion yn ystyried hanes Cymraeg yr ardal ac yn meddwl sut y buasai'n bosib iddynt hwy fel disgyblion dynnu sylw at bwysigrwydd gwreiddiau Cymraeg ardal y Gaiman.

**Prosiect Arwyddion Cymraeg - Blwyddyn 6**

Mae disgyblion blwyddyn 6 wedi bod yn brysur yn darlunio a chreu arwyddion Agor a Chau yn y Gymraeg ac yn Sbaeneg ac wedi eu dosbarthu i nifer fawr o siopau lleol yn y Gaiman.

Dywed Ricardo Evans am y prosiect:

"Rydw i a myfyrwyr blwyddyn 6 wedi mwynhau gwneud y prosiect yma ac rydym yn gweld yr arwyddion yn ffordd bwysig i gynnal yr iaith Gymraeg yn y dref. Drwy wneud prosiectau bach fel hyn gyda'r adran Gymraeg bydd yr iaith yn mynd ymlaen am byth."



Brisa Guzmán Roberts, Soledad Barragán a Brisa Vázquez yn gosod arwydd yn y Kiosgo.






Ricardo Evans yn rhoi arwydd i Mario Velasco yn Swyddfa Bost y Gaiman.

Mae rhai arwyddion yn dal ar gael os hoffech chi gefnogi y prosiect neu os ydych chi'n gwybod am rywun a hoffai gael arwydd, gadewch i Goleg Camwy wybod.

## Prosiect Arwyddion Cymraeg yn Nhŷ Cyntaf Gaiman -Blwyddyn 5


Penderfynodd rhai o ddisgyblion blwyddyn 5 ei fod o'n syniad da ail-greu a chyfieithu arwyddion o gynnwys Tŷ Cyntaf Gaiman er mwyn i ymwelwyr allu deall ychydig mwy am hanes a ffordd o fyw un o'r teuluoedd cyntaf i ymgartrefu yn y Gaiman. Os ydych chi'n ymweld â'r Tŷ nawr mae arwyddion newydd wedi eu lamineiddio a'u cyfieithu mewn Sbaeneg, Cymraeg a Saesneg.


Dywed Nia White am y prosiect:

"Da ni'n falch iawn o'r prosiect hwn. Mae wedi bod yn rhywbeth gwahanol i'w wneud yn y dosbarthiadau Cymraeg, felly fe wnaethom ni fwynhau ei drafod a'i gynnal."

Dyma farn Ramiro am y prosiect:

"Dw i'n credu ei bod hi'n bwysig i bobl ifanc gymryd rhan mewn prosiectau fel hyn achos mae'n gyfle i gynnal a dysgu am ddiwylliant a threftadaeth ein tref."





María Sol, Nia White a Ramiro Marnich yn gosod arwyddion yn nhŷ cyntaf y Gaiman.


## Prosiect Celf a Diwylliant - Blwyddyn 4

Roedd blwyddyn 4 wedi cael amser wrth eu boddau yn peintio eu traed neu ôl eu hesgidiau mewn grwpiau.


Wedi hyn roeddent yn dewis tri lle pwysig yn y Gaiman sydd yn dangos gwreiddiau Cymraeg y dref a chael defnyddio eu dychymyg a gwaith camera i greu lluniau llonydd i ddangos y cysylltiad rhwng olion iaith y gorffennol ac olion iaith y presennol.

Dywedodd Guadalupe Ojeda am y prosiect:

"Roedd y prosiect yn un diddorol iawn ac roeddwn i wedi mwynhau gweithio mewn grŵp yn yr awyr agored. Credaf ei bod hi'n bwysig i ni wneud prosiectau fel hyn er mwyn cofio a dangos gwahanol lefydd yn y Gaiman sydd yn rhan o'r diwylliant Cymraeg."



Felipe Millatruz tu allan i Goleg Camwy.



Dewch i weld yr arddangosfa yng Ngholeg Camwy!

Mae hi wedi bod yn fraint gweithio gyda disgyblion mor hawddgar a brwdfrydig a hoffwn ddiolch yn fawr i Ana Pinciroli ac i Gabro Restucha am roi cyfle i mi wneud y prosiectau hyn gyda'r disgyblion.

Glesni Edwards

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P | N | Y | W | G | N | Y | R | B |
| L | B | C | D | FF | G | S | O | R |
| A | U | D | N | Y | CH | O | M | Y |
| S | I | O | P | B | A | R | A | N |
| Y | U | W | L | I | D | E | A | C |
| C | A | M | W | Y | O | M | F | R |
| O | N | Y | W | G | Y | T | E | W |
| E | A | J | Y | H | E | D | A | N |
| D | G | C | CH | I | LL | R | L | I |
| S | E | O | B | L | A | S | U | S |
| Y | T | LL | M | U | Y | F | E | D |
| D | R | A | I | G | G | O | CH | DD |

**Chwiliwch am y geiriau canlynol uchod:**

Mochyn Du    Tŷ Gwyn    Bryn Crwn

Teganau    Plas y Coed    Camwy    Blasus

Bryn Gwyn    Draig Goch    Siop Bara

---

**EIN COLEG**

C _ _ _ _ _ _

_ _ A _

M _ _ _ _ _ _ _ _

W _ _

_ Y _ _ _ _

Iaith sydd yn cael ei ddysgu yn y coleg.

Lliw crys-t y coleg.

Pwnc o'r coleg sydd yn defnyddio rhifau.

Am faint o'r gloch mae'r coleg yn dechrau?

Pethau sydd yn y llyfrgell.

Gorffennwch y chwilair a'r pos uchod a'u dychwelyd i Goleg Camwy i ennill gwobr!

# Dewch i gwrdd â´r athrawon o Gymru eleni...

**Gwenno Rees, 25 Efail Isaf, Pontypridd**
**Swyddog Datblygu´r Iaith Gymraeg**

**Beth wyt ti´n ofni fwyaf?**

Tywyllwch, uchder, a un newydd ers fy mrathiad ar ddechrau´r flwyddyn... corrynod!! YCH A FI.

**Rwyt ti am fynd am swper gyda 3 o bobl enwog heno. Pwy byddet ti´n dewis?**
Y Dalai Lama, David Attenborough a Elin Fflur.

**Hoff fath o wyliau?**
Unrhyw fath o wyliau antur. Rwy´ wrth fy modd yn ymweld â themlau dros y byd a phrofi diwylliannau gwahanol.

**Hoff ddilledyn?**
Siwr a fod fy onesie ´Sully´o´r ffilm Monsters Inc. Neu unrhywbeth cyfforddus a chlud!

**Hoff bryd o fwyd yn yr Ariannin?**
Cwestiwn hawdd... Stêc Malbec yng Ngwalia Lan. Does dim hyd yn oed angen edrych ar y fwydlen erbyn hyn!

**Beth yw dy hoff atgof o´r flwyddyn?**

Gweld y morfilod ar draeth El Doradillo am y tro cyntaf a gweld y plant ar lwyfan yr Eisteddfod.

**Emyr Evans, 37 Bancffosfelen, Sir Gaerfyrddin**
**Swyddog Datblygu´r Iaith Gymraeg**

**Hoff ffilmiau?**

Bad Teacher, Minority Report a Mary Poppins

**Rwyt ti´n arlywydd neu´n brif wenidog am y dydd, beth wyt ti´n newid?**

Rhoi annibyniaeth i Gymru a threfnu teithiau / ysgoloriaethau am ddim i bobol Cymru a Phatagonia i ymweld â´i gilydd.

**Bwyd sydd wastad yn y ffridj?**

Cawl yn barod i´w dwymo.


**Pa swydd fyddai´r un waethaf i ti?**

Dysgu ? (Joooc!) Cyfreithiwr siwr a fod—dw i ddim digon trefnus na rhesymegol!


**Hoff ymadrodd yn Gymraeg.**

Cymraeg: Perffaith. Chi werth y byd.

**Hoff atgof o´r flwyddyn:** Prynhawn braf yn Esquel, yr haul yn disgelirio drwy ffenestri Seion, côr yr Urdd yn canu cân, a dagrau yn ein llygaid i gyd. Bythgofiadwy.














Gwenno Rees

## Lisa Johnson, 27
## Llanasa, Sir Fflint
## Athrawes yn Ysgol Gymraeg yr Hendre

**Pa stori ddoniol wyt ti´n cofio fwyaf o dy blentyndod?**
Pan roeddwn i tua 9 oed, es i am dro ar ben to´r sied gwartheg i gasglu gweddyllion eira i wneud peli eira. Cyn cyrraedd yr eira, syrthiais drwy´r to a glanio yng ngwely´r lloau. Yn lwcus i mi, roedd y sied yn wag a ches i ddim fy mrifo!

**Rwyt ti dim ond yn cael bwyta un math o fwyd am weddill dy fywyd. Pa fwyd byddet ti´n dewis?**
Lasagne cig.

**Petai cyfle i ti fod yn enwog yn y byd chwaraeon, beth fyddet ti´n dewis bod?**
Athletwraig— ras 1500metr.

**Pa fath o gerddoriaeth wyt ti´n hoffi gwrando arno yn y car?** Cerddoriaeth pop—unrhyw beth alla i ganu nerth fy mhen iddo!

**Dy hoff gêm.**
Dobble—gêm cardiau.

**Beth yw dy hoff atgof o dy ddeg mis yma ym Mhatagonia?**
Dathlu Dydd Gwyl Dewi gyda´r plant yn yr ysgol drwy ganu, dawnsio a bwyta´n draddodiadol yn y Gymraeg.

## Angharad Price, 27
## Bethel, Caernarfon
## Athrawes yn Ysgol Gymraeg y Gaiman

**Rwyt ti´n gallu dewis unrhyw swydd yn y byd—beth byddet ti´n dewis gwneud?**
Prima Ballerina yn ysgol ballet Cuba!


**Pa flas hufen iâ sydd yn cynrychioli dy bersonoliaeth di orau?**
Mintys gan bo´fi mor cŵl!

**Dy hoff le yng Nghymru?**
Ynys Llanddwyn pan mae´r haul yn machlud.

**I ble wyt ti´n gobeithio teithio nesaf?**
CYMRU!! Wedyn... Ffrainc i fynd i Disney...wedyn i Fflorida... ia, da chi wedi dyfalu...i fynd i Disney!

**Disgrifia dy hun mewn 3 gair.**
Anturus, llwglyd, egniol.

**Beth yw dy hoff atgof o dy amser yma?**
Cymaint o atgofion melys! Mae hi´n anodd dewis rhwng gweld y morfilod ar lan y môr a dringo ar glasier yn El Calafate!





## Glesni Edwards, 33 — Llanrhaeadr, Sir Ddinbych — Swyddog Datblygu´r Iaith Gymraeg

**Arwr:** Gwynfor Evans gan ei fod wedi brwydro cymaint i ni gael sianel deledu Gymraeg.

**Hoff dymor?** Yr Hydref—dw i wrth fy modd yn mynd am dro gyda'r teulu a'r ci a gweld holl liwiau natur ar eu gorau. Mae´r tymor yma yn rhyfeddod i mi bob blwyddyn.

**Pa offeryn hoffet ti chwarae?** Y piano— mae´n agor y drws i fyd newydd llawn posibiliadau cerddorol.


**Mae peiriant amser gyda ti... ble wyt ti´n dewis mynd?** Yn ôl i adeg y deinosoriaid i gael gweld yr anifeiliaid hynod yma yn eu cynefin naturiol a bod yn ofalus i beidio â chael fy mwyta.

**Pa anifail hoffet ti fod?** Hoffwn i fod yn wennol a chael y gorau o'r ddau fyd—hynny yw cael trafeilio 35 milltir yr awr drwy'r awyr i Gymru ac wedyn wrth i'r tywydd ddechrau oeri cael mynd yn ôl i wlad boeth dros y Gaeaf.

**Hoff atgof o'r flwyddyn?** Credaf mai eistedd ar long yn ffarwelio â'r rhewlifoedd hudolus yn El Calfate ydi un o fy hoff atgofion hyd yma. Fe wnaeth i mi sylweddoli pa mor hardd ydi creadigaethau natur.

Gwenno Rees

# Rhai o ddigwyddiadau Menter Patagonia 2018






























Mae eleni wedi bod yn flwyddyn brysur gyda llawer o ddigwyddiadau, gan gynnwys y Ffair Lyfrau, Nosweithiau Teisennau Dolavon, Nosweithiau Cawl a Chân, Cyflwyniadau am Gymru gan Magali, Norma, Ariela a Flor, Noson ´Te yn y Grug´, Digwyddiadau yng ngrwpiau Sgwrsio Gaiman a Threlew, Nosweithiau Cymunedol Porth Madryn, Noson Lawen i´r cefnogwyr rygbi o Gymru a llawer mwy! Dyma luniau o rai o´r digwyddiadau eleni!

# Taith Yr Urdd

Eleni bues i'n ddigon lwcus i allu staffio Taith yr Urdd i Batagonia ar y cyd gyda Sian Davenport o Fenter Caerdydd a Llion Jones sydd yn gweithio yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-Llyn. Fe ddechreuodd y daith gyda'r grŵp cyfan yn hedfan o Gatwick i Buenos Aires a wedyn ymlaen i Drelew.

Wedi i'r grŵp gael noson dda o gwsg fe aethom i gyd yn syth i weithgareddau a digwyddiadau yn y Gaiman a Threlew. Yn ystod y dydd, aeth ein grŵp i ymweld a ysgolion gwahanol fel Ysgol Feithrin y Gaiman a Ysgol Feithrin yr Hendre. Tra yn yr ysgolion, roedd y grŵp yn cynnig gweithgareddau amrywiol megis gemau Cymraeg a sesiynau canu. Wedi'r nos, roedd digon o gyfleoedd i ddangos talentau'r grŵp mewn amryw o gyngherddau, gyda nifer ohonyn nhw yn canu, dawnsio a un yn chwarae'r ukulele! Roedd y grŵp yn ddigon lwcus i fod yn y Wladfa yr un adeg a'r Eisteddfod. Cerddon ni fel grŵp lawr i'r dre a gwylio' Seremoni'r Orsedd. Roedd yn brofiad anhygoel bod pen draw'r byd a chlywed grŵp mawr o bobl yn cyd-ganu anthem Genedlaethol Cymru gyda chymaint o angerdd ac egni. Roedd yr Eisteddfod braidd yn wahanol i Eisteddfod yr Urdd fel mae nifer ohonom yn gyfarwydd â. Fe wnaeth grŵp yr Urdd gymryd rhan mewn nifer o bethau – llefaru, côr, can ysgafn a chanu emyn, gyda digon o lwyddiant yn ystod y penwythnos.

Ar ôl bod yn y Dyffryn am 6 diwrnod, aethom ar y bws dros nos i Esquel. Fe ddechreuom ein amser yn Esquel gyda rhywbeth bach yn wahanol – rafftio dŵr gwyn.



Unwaith eto mi oedd ein hamser yn Esquel llawn ymweliadau i ysgolion gwahanol fel Ysgol y Cwm a Ysgol 24 i wneud gweithgareddau amrywiol. I orffen ein amser yn Esquel, cawsom wahoddiad i fferm y teulu Green. Mae pawb sydd wedi bod ar y fferm o hyd yn siarad am y bwyd ac ar ôl bod yna rydw i'n gweld pam! Roedd y bwyd yn arbennig o dda – yr asado mwyaf dw i erioed wedi gweld. Dyma oedd ein noson olaf yn Esquel felly am ffordd i orffen!

Mi oedd y daith yn un bythgofiadwy. Dwi'n teimlo'n lwcus iawn i fod wedi staffio'r daith ac i fod yn rhan o'r profiadau anhygoel yn ystod y bythefnos. Rydw i wir yn edrych ymlaen at allu mynd yn ôl rhyw ddiwrnod!

**Sinead Harries**

"Ym mis Hydref, cefais y fraint o gael teithio i'r Wladfa gyda 24 o bobl ifanc o ar draws Cymru. Yn ystod yr amser buom ni yno, fe aethom i ymweld â nifer o ysgolion cynradd, rhai Cymraeg a Sbaeneg, ac hefyd ymweld a Choleg Camwy. Roedd cael mynd i'r ysgol a chynnal sesiwn ganu efo'r disgyblion yn brofiad arbennig iawn i mi. Roeddwn wrth fy modd yn clywed y plant yn morio canu ribidires! Roedd y plant wedi mopio wrth weld ni, ac roeddent yn rhedeg atom! Mae pobl y Wladfa yn hynod o groesawgar, yn treulio oriau yn coginio a pharatoi bwyd i ni gyd ac yn ein croesawu ni i'w capeli, ysgolion ac i'w tai ac doedd dim byd yn ormod o drafferth iddynt. Diolch yn fawr!" **Gwenno Ellis Owen**

NEWYDDION YSGOL GYMRAEG Y GAIMAN
Rhif 1 (Mehefin 2018)

# YSGOL GYMRAEG Y GAIMAN N° 1035

## Croeso i Newyddion

Ysgol Gymraeg y Gaiman (YGYG)!
O hyn ymlaen byddwn yn gohebu â chi yn achlysurol er mwyn i chi wybod am weithgareddau'r ysgol – yn enwedig y gwaith a wnawn i hyrwyddo'r Gymraeg a'r diwylliant yn y rhan arbennig yma o Batagonia.




Mae'r flwyddyn addysgol wedi hen gychwyn erbyn hyn a'r athrawon a'r disgyblion yn brysur gyda llu o weithgareddau amrywiol. Mae'r ysgol yn tyfu wrth gwrs, a ninnau erbyn hyn yn croesawu plant rhwng blwydd a hanner oed hyd at Flwyddyn 4 (10 oed) atom bob dydd.
Mae'r plant bach yn mynd adref am 12.30 a phlant y Dosbarth Derbyn (5 oed) a Chynradd (6-10 oed) yn aros tan 3.00 y prynhawn.

### Dosbarthiadau Cymraeg YGYG:

Yn y bore
- 18 o blant bach yn y Dosbarth Babanod dan ofal Celeste Filiponi a Sybil Hughes
- 18 yn y Dosbarth 3 oed dan ofal Tatiana Rogers
- 25 yn y Dosbarth 4 a 5 oed dan ofal Judith Jones
- 13 disgybl Blwyddyn 3 a 4 dan ofal Angharad Price

Y prynhawn
- 12 disgybl y Dosbarth Derbyn (5 oed) dan ofal Angelica Evans
- 31 o ddisgyblion Blwyddyn 1, 2, 3 a 4 wedi eu grwpio yn ôl lefel eu Cymraeg ac yn cael eu dysgu gan Angharad Price, Esyllt Nest Roberts, Gwenno Rees a Glesni Edwards.



Athrawon cerddoriaeth ac ymarfer corff
(hefyd yn Gymraeg)
- Ariela Gibbon, Cinthia Zanmareño, Florencia Zaldegui.

### Ystafelloedd Dosbarth Newydd Sbon!

Oherwydd bod niferoedd ein disgyblion yn cynyddu, ar ddiwedd 2017 rhaid oedd meddwl am ehangu'r adeilad. Dros wyliau'r haf, diolch i haelioni nifer o gyfeillion Cymdeithas yr Ysgol, adeiladwyd dwy ystafell newydd yng nghefn yr adeilad presennol ac mae'r sylfaen wedi ei gosod ar gyfer dwy ystafell newydd arall. Mae blwyddyn 3 a 4 erbyn hyn wrth eu boddau yn eu hystafelloedd newydd.





Croeso i Angharad, Gwenno a Glesni
Mae Angarad Price o Fethel ger Caernarfon wedi setlo'n dda iawn yn ein plith ac yn gaffaeliad mawr i'r ysgol.
Hi yw athrawes y prosiect a sefydlwyd yn 2017 sy'n ein galluogi ni fel ysgol i benodi athrawes yn llawn amser o Gymru. Yn y bore mae hi'n dysgu mathemateg, gwyddoniaeth, iaith a llenyddiaeth i flwyddyn 3 a 4 – yn ddiweddar bu blwyddyn 4 yn astudio chwedl Branwen.

Mae Gwenno Rees a Glesni Edwards, athrawesau y Cynllun Iaith, hefyd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at fywyd yr ysgol drwy gynnal gwersi Cymraeg a sesiynau darllen a deall i'r plant yn y prynhawniau a gwersi Cymraeg i'r staff yn y boreau.




Blwyddyn Brysur
Gallwch ein dilyn ar ein cyfrif @Ygaiman, Ysgol Gymraeg y Gaiman i weld beth sy'n digwydd yn yr ysgol. Yn ogystal â'r gwersi ffurfiol (ble'r ydym yn gweithredu cwricwlwm yr Ariannin drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn defnyddio cynlluniau gwerthfawr o Gymru megis Tric a Chlic a chynllun Darllen gyda Sam), mae llu o weithgareddau allgyrsiol yn digwydd.
Er enghraifft, ar Ebrill y 23 ain buom yn dathlu diwrnod rhyngwladol y llyfr drwy ymweld â Llyfrgell Eluned Morgan a Llyfrgell Berwyn yn y dref.
Mae'r disgyblion cynradd wedi cymryd rhan mewn cystadleuaeth gan wasg y Lolfa a'r disgyblion oll yn cystadlu yn eisteddfodau'r Wladfa.
Buom hefyd yn cadw'n heini drwy ymarfer Dawns Mr Urdd yn ystod Wythnos Byw yn Iach!





Diolch yn Fawr, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC
Yn dilyn eu hymweliad yn 2015, aeth y gerddorfa ati i gasglu offerynnau i'w hanfon i dalaith Chubut. Derbyniodd YGYG gasgliad o offerynnau taro. Rydym yn hapus ac edrychwn ymlaen i'w defnyddio gyda Cinthia ac Ariela yn y gwersi cerddoriaeth.





Ymwelwyr
Rydym wrth ein boddau yn croesawu ymwelwyr i'r ysgol gan ddangos iddynt y gwaith yr ydym yn ei wneud. Yn ddiweddar daeth Carolina a Geraint Rees o Bontypridd atom a chawsant eu tywys o ddosbarth i ddosbarth gan Morena Delgado Griffiths o Flwyddyn 4. Daeth Lowri Cole ac Iwan Rees atom hefyd a chafodd disgyblion y prynhawn gyfle i'w holi'n dwll! Ac aeth Eoghan O'Regan o Sir Fôn o ddosbarth i ddosbarth a gwirioni clywed rhai disgyblion yn dweud yr enw Llanfairpwllgwyngyll... yn berffaith!

Llongyfarchiadau i Ddwy o Athrawesau YGYG
Llongyfarchiadau MAWR i ddwy o athrawesau'r ysgol sydd wedi derbyn ysgoloriaethau i fynd i Gymru – Ariela Gibbon (Cerddoriaeth) ar gwrs Cymraeg i Gaerdydd a Florencia Zaldegui (Ymarfer Corff) i wersylloedd yr Urdd. Pob lwc!



Hoffech chi ein cynorthwyo?
Cofiwch fod croeso i chi gyfrannu at ein cynllun arbennig sy'n galluogi YGYG i benodi athrawes o Gymru. Eisoes mae nifer o gyfeillion o'r Wladfa a Chymru yn cyfrannu £20 punt neu $500 peso bob mis - heb eu cefnogaeth ni fyddai'n bosib inni gynnal y prosiect hwn. Ar ddechrau'r cynllun yn 2017 derbyniasom gymorth Teithiau Tango a Brian Williams i dalu am docynnau hedfan yr athrawes – heb y cyfraniad hwnnw ni fyddem wedi llwyddo i ddechrau troi'r olwyn fel petai! Petaech yn dymuno ein cefnogi, cysylltwch â Lois Dafydd yng Nghaerdydd:

Ebost: loisdafydd@live.co.uk
Ffôn: 07817205706
Cyfeiriad: 22 Stryd Kent, Caerdydd. CF11 7DL


neu Esyllt Nest Roberts yn y Gaiman:
Ebost: esylltnest@yahoo.co.uk
Ffôn: 005492804615354
(Gallwch gysylltu ag Esyllt neu Lois drwy Whatsapp hefyd.)


**Galwch draw!**
Mae croeso i unrhyw un ymweld â ni yn Ysgol Gymraeg y Gaiman, felly cofiwch, pan fyddwch yn Nyffryn Camwy, galwch draw i rif 131 Stryd Libertad i sgwrsio â'r disgyblion a chael hwyl gyda ni.


**Tan y tro nesaf.**
**Hwyl fawr ffrindiau!**

Ffeindiwch y 5 peth sy´n wahanol am y tedi...

# Tudalen i´r plant







# RICARDO EVANS



Dyma Ricardo yn rhannu ei hanes am ei daith ddiweddar i Goleg Llanymddyfri gydag ysgoloriaeth Tom Gravell.

Bob blwyddyn, mae cofrestru ar agor ar gyfer ysgoloriaeth Tom Gravell, sy'n cynnwys mynychu dosbarthiadau am dymor yn ysgol fawreddog Llanymddyfri yng Nghymru sydd ag ysgol breswyl. Bwriad yr ysgoloriaeth hon ydy i bobl ifanc rhwng rhwng 16 a 18 oed, sy´n ymddiddori yn yr iaith Gymraeg, ei diwylliant a´i hanes ac sy´n yn fodlon dysgu'r cynnwys sydd yn cael ei gynnig yng nghwricwlwm yr ysgol honno.
Rhoddir yr ysgoloriaeth gan David Gravell o Gydweli er cof am ei dad Tom Gravell a oedd yn ffrind gwych ac yn ymwelydd ffyddlon i'r wladychiaeth Gymreig yma yn nhalaith Chubut. Ers i´r prosiect gael ei sefydlu yn 2003, mae 19 o fyfyrwyr wedi cael eu dewis ar gyfer yr ysgoloriaeth, ac eleni, Ricardo Evans de Gaiman oedd yr 20fed i gael ei ddewis.

***Profiad Ricardo***

Penderfynais i fynd i Gymru i astudio am 3 mis yn Ysgol Llanymddyfri oherwydd yr holl ymdrechion a wneir gan fy athrawon yma yn y Wladfa a rhoddod yr awydd i mi ddysgu yr iaith wych hon.

***Ymgeisio am yr ysgoloriaeth***

Roedd yn broses hir i mi, yn gyntaf, llythyr cyflwyno a ddywedodd pwy oeddwn i, pam yr oeddwn wedi ymgeisio am yr ysgoloriaeth, ac yn olaf, beth yr oeddwn am ei wneud â'r hyn yr oeddwn wedi'i ddysgu yn fy ardal. Yna, roedd cyfweliad drwy Skype gydag athro Cymraeg yr ysgol, Mr. Wyn Morgan a rheolwr myfyrwyr y Patagonia yng Nghymru, Mr. Glyn Evans, ynghyd ag athro Sbaeneg, Mr. De Rose, a ofynnodd i mi am fy niddordebau a'm hobïau a dweud wrthyf am yr ysgoloriaeth fawreddog hon a gynigir (astudiaethau, bwyd, arian poced a theithiau yng Nghymru, ac ati). Ar ôl cynnal y cyfweliadau, roedd yn rhaid iddynt ddewis myfyriwr. Roeddwn i'n ffodus iawn i fod yr un a gafodd ei ddewis.

***Yr Ysgoloriaeth***

Gadawais i Drelew ar y 6ed o Ionawr a chyrraedd Maes Awyr Rhyngwladol Heathrow yn Llundain ar y 7fed. Pan gyrhaeddais i Lundain, cwrddais y person oedd yn trefnu´r ysgoloriaeth - Mr. Evans a gymerodd fi i'r ysgol mewn cerbyd. Mae gennyf atgof hardd o fynd i Gymru ar y briffordd (yr M-4) ar y bont rhwng Cymru a Lloegr a gweld tirweddau unigryw yn deilwng o gerdyn post drwy fy ffenestr. Pan gyrhaeddais yr ysgol, gwelais adeilad hanesyddol gwirioneddol, fel petai o ffilm, ac ystafelloedd dosbarth modern a chyfforddus. Cysgais mewn preswylfa ar gyfer bechgyn yr ysgol o'r enw "Tŷ Cadog". Yn y cartref, roedden nhw i gyd yn garedig iawn i mi.

Yn yr ysgol, mae´r rhanfwyaf o´r pynciau yn cael eu dysgu drwy´r Saesneg ond mae cyfle i ddysgu´r Gymraeg hefyd. Yna, treuliais i ddiwrnod ym mhob ystafell ddosbarth i arsylwi ar y system. Roeddwn i'n gallu siarad Cymraeg gyda rhan fechan o staff yr ysgol a gyda phobl o'r dref lle'r oeddwn i'n byw, ond fe wnes i wella fy lefel Saesneg yn fawr iawn.

Roedd y diwrnod ysgol yn hir, o 8:00 yn y bore tan tua 4:30 p.m, lle cawsom wasanaeth bore, chwaraeon, cinio a swper. Bob dydd Gwener, fel rhan o'r hyn yr oedd yr ysgoloriaeth yn ei gynnig, mynychais ysgol elfennol Gymraeg o'r enw "Ysgol Rhys Pritchard" lle buais i´n helpu athrawon ac yn adrodd bywyd ym Mhatagonia a hanes gwladfawyr Cymreig yn Chubut. Roedd grŵp tawel yn eu ail blwyddyn yn yr ysgol lle roedd yr holl blant yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf a ddaeth a llawenydd mawr i mi.

Ar benwythnosau, byddai fy ffrindiau yma (cyn athrawon Cymraeg ac eraill) yn mynd â mi allan o'r ysgol i gerdded o gwmpas gwahanol rannau o'r wlad. Dros y gwyliau "Hanner Tymor" fe gymerodd ysgrifennydd Cymdeithas Cymru-Ariannin Ceris Gruffudd fi i ymweld â rhan ogleddol y wlad (Aberystwyth, Ardal Caernarfon ac Ynys Môn). Bues i hefyd i ymweld â mannau geni fy hynafiaid - llefydd fel Aberdâr, Aberpennar a Merthyr Tudful. Bydd y teithiau cerdded hynny yn cael eu cadw yn fy nghalon am byth. Yn olaf, fy hoff beth am yr ysgol oedd cefnogaeth a theimlad o gyfeillgarwch gan y staff a fy nghyd-fyfyrwyr ac rwyf yn cyfathrebu gyda nhw yn achlysurol heddiw. Roeddwn i hefyd yn hoffi y system addysgu, nid yn unig yn ysgol Llanymddyfri, ond hefyd system y wlad.

Byddwn yn argymell yr ysgoloriaeth hon ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n caru'r iaith Gymraeg ac am ledaenu´r iaith ymhlith pobl ifanc. Nid taith bleser yn unig yw´r ysgoloriaeth ond taith i ddysgu, myfyrio a gadael ein hanfod Ariannin yno, ond ar yr un pryd, dod â gwybodaeth yn ôl i´r Wladfa.








***Dw i eisiau dweud pob hwyl i Naihara Bonillo sydd wedi cael ei dewis ar gyfer yr ysgoloriaeth yn 2019 a diolch yn fawr iawn i bob un sydd wedi fy helpu yng Nghymru yn ystod fy ymweliad i eleni. Diolch i'r teulu Gravell, yr athro Wyn Morgan sy'n gweithio'n galed trwy´r dydd yn y Coleg efo'r disgyblion a'i fyfyrwyr. Diolch i Mr. Tom Jones (Ty Cadog) a fy ffrindiau annwyl o'r tŷ. Diolch hefyd i aelod Cymdeithas Cymru - Ariannin Ceris Gruffudd o Benrhyn Coch (Aberystwyth) am y daith o gwmpas Cymru. Ces i brofiad arbennig draw gyda phobl gwych. Yn olaf, diolch yn fawr i Glwb Rotari Rotari Llanymddyfri am rhoi arian poced i mi, pobol garedig iawn. Diolch yn fawr i bawb. Muchisimas gracias a todos los que me ayudaron de una u otra manera con la beca Tom Gravell.***

Ricardo EVANS.


# Ysgol Yr Hendre












Diwrnod Y Traddodiadau, Parti Pyjamas, Arddangosfa Wyddoniaeth, Diwrnod Blasu a´r Noson Lawen





Trip Dique Florentino Ameghino a Punta Tombo





**Ysgoloriaeth Santander 2018** **Fy Mhrofiad yn y Wladfa** **Katy Wills**

Ym mis Awst,2018, daeth Katy Wills o Brifysgol Caerdydd i ymweld â'r Wladfa am fis fel rhan o brosiect ysgoloriaeth Santander. Mae Katy yn byw yng Nghaerdydd, ond wedi dysgu Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgol, gan fod neb yn ei theulu yn siarad Cymraeg. Wrth i Katy ddechrau ei blwyddyn olaf yn astudio'r Gymraeg yn y brifysgol, mae hi'n edrych nol ar y profiad bythgofiadwy a gafodd hi yn y Wladfa.



**Beth wnes i yn y Wladfa?**

Yn ystod y mis, gweithiais i mewn amrywiaeth o ysgolion a dosbarthiadau Cymraeg ac fe gwrddais i â llawer o bobl wahanol o bob oedan. Treuliais i ran fwyaf o'm hamser yn Ysgol y Gaiman ac Ysgol yr Hendre yn Nhrelew. Arhosais i ym Mhlas y Coed yn y Gaiman ac roedd yn le cyfforddus a chyfleus i ddod i adnabod yr ardal leol ac i ymweld â'r ysgolion o amgylch y dalgylch hyn. Yn ysgol y Gaiman, gweithiais gyda'r athrawon cerddoriaeth er mwyn helpu paratoi'r plant ar gyfer yr Eisteddfod. Rwy'n canu'r ffliwt a'r piano ac yn hoffi canu felly, chwaraeais i'r piano ar gyfer y caneuon Eisteddfod a wedyn, roeddwn i'n lwcus i gael cyfle i arwain gwersi ffliwt i blant hefyd. Mwynheuodd y plant glywed y ffliwt yn ogystal â cheisio'r ffliwt eu hunain!


Bob dydd Gwener, es i i Ysgol yr Hendre er mwyn chwarae gemau Cymraeg gyda grwpiau bach o blant. Gweithiais i gyda phob blwyddyn ac roedd yn hyfryd i weld sut mae'r plant yn defnyddio Cymraeg a cheisio ymarfer a dysgu geiriau newydd bob dydd. Yn ogystal â hyn, es i i nifer o ddosbarthiadau Cymraeg ar gyfer oedolion sef y grŵp Wlpan Gaiman, grŵp sgwrsio Trelew, grŵp Pellach Gaiman, grŵp sylfaen Trelew a dosbarthiadau yng Ngholeg Camwy. Roedd yn ysbrydoliaeth i weld cymaint o oedolion yn dysgu Cymraeg ac i gael profi pa mor angerddol ydy pawb am yr iaith yn y Wladfa. Gwnes i gyflwyniad am Gaerdydd a'i ddiwylliant i'r grwpiau dysgwyr er mwyn rhannu gwybodaeth am fy nghartref a dangos ein diwylliant an traddodaidau ni fel Cymry. Ar ôl y gwersi roeddwn i wedi mwynhau trafod cynnwys fy nghyflwyniad gyda'r dysgwyr yn fawr iawn.

Ar y penwythnos olaf, cynhaliwyd yr Eisteddfod Ieuenctid yn y Gaiman. Roedd hyn yn brofiad anhygoel imi! Roedd yn arbennig i weld plant yn cystadlu mewn cystadlaethau Cymraeg yn ogystal â Sbaeneg. Gwelais i ddawnsio gwerin, plant yn adrodd, pobl yn dangos eu doniau cerddorol ayyb. Roedd yn ddathliad arbennig o ddiwylliant Cymreig a Sbaeneg a dathliad o ddawn pobl ifanc yn yr ardal. Roedd yn brofiad bythgofiadwy i berfformio ar y ffliwt a chanu yn y côr yn yr Eisteddfod yma. Es i i ymarferion côr bob wythnos, ac roedd yn wych i deimlo fel rhan o'r gymuned trwy ganu gyda'r bobl ifanc o'r ardal mewn cystadlaethau yn yr Eisteddfod.

Yn syth, ar ôl cyrraedd, y Wladfa roedd hi'n amlwg i mi pa mor gyfeillgar ydy pawb yma. Rwy'n byw mewn dinas fawr felly mae pawb yn brysur ac yn cerdded lawr y stryd mewn byd eu hunain ond yma mae pawb yn cyfarch ei gilydd yn y stryd. Roedd hyn yn hyfryd a wedi gwneud imi deimlo'n groesawgar iawn. Roeddwn i wrth fy modd yn byw mewn pentref bach, mae popeth yn teimlo'n agos ac mae teimlad o gymuned yn gryf iawn yma. Mae'r siopau lleol yn hyfryd gyda phopeth ar yr un stryd. Bwytais i lawer o gacennau hyfryd (gormod o gacennau efallai....) ac wedi joio trio bwyd traddodiadol fel Empanadas, Asado a stiw Patagonia.

Yn ystod fy amser rhydd, treuliais i amser yn ymweld ag ardaloedd eraill ym Mhatagonia. Es i sgïo yn Esquel ac i'r parc cenedlaethol yn Nhrevelin yn ogystal â Phorth Madryn a Phorth Rawson i weld morfilod a dolffiniaid. Dydw i erioed wedi gweld bywyd gwyllt fel hyn o'r blaen felly roedd yn arbennig iawn i mi. Rydw i eisiau dweud diolch anferthol i bawb sydd wedi croesawu fi yma. Bydda i byth yn anghofio'r daith, a gobeithiaf yn fawr y byddaf yn gallu dod yn nôl i Batagonia yn y dyfodol. Mae'r cysylltiad rhwng Cymru ac yr Ariannin yn arbennig iawn ac rwy'n teimlo'n hynod o lwcus fy mod i wedi cael profi hyn!!

# Casgliad O Hoff Jôcs
# Clwb Yr Urdd, Trelew



**Beth ydy enw dyn llaeth o´r Eidal?**
Mario Torriboteli.

**Beth mae´r ´Pink Panther´yn bwyta i Frecwast?**
Bara-bara...bara...bara-bara-bara-bara-baraaaa


**Gofynnais i i ddyn o Ffrainc os oedd o´n chwarae unrhyw gemau fideo. Dywedodd, wii.**

**Roberto: Dwi wedi torri fy mraich mewn sawl lle.**
**Doctor: Paid a mynd i´r llefydd yna eto!**




**Beth ydych chi´n galw plismon o Lanberis?**
Copa´r Wyddfa.

**Pwy mae Taid yn galw mewn argyfwng?**
nain-nain-nain



**Beth sy´n digwydd os ydych chi´n tynnu llun efo fflach?**
Mae Spiderman yn mynd yn flin.

**Anghofiais sut i daflu bwmerang. Paid poeni, daw yn ôl ataf.**

**Pa fath o gi sydd yn byw yn y jyngl?**
Mwnci

**Dad: Paid a chwarae efo tân**
**Dwy awr yn ddiweddarach...roedd y tân dal yn unig.**


# HER Y MOCHYN DU!

**Mae´r Mochyn Du wedi dianc ac yn cuddio rhywle yng Nghlecs Camwy...**

**Ffeindiwch y mochyn a´i ddychwelyd i´r Mochyn Du.**
**Mi fydd y cyntaf yno yn ennill diod am ddim!**

# IDIOMAU ANIFEILIAID


## TRAED MOCH
Pethau wedi mynd i'r pen; cyn waethed ag y gallen nhw fod ; yn flêr ac yn anhrefnus.






## FEL TRAED BRAIN
Sgrifen fabiaidd neu flêr gyda'r llythrennau ar draws y papur i gyd, fel ôl traed haid o frain yn yr eira.


## GADAEL Y NYTH
Mynd allan i'r byd. Mae'r ymadrodd hwn yn cael ei ddefnyddio am blant yn mynd oddi cartref i fyw bywyd annibynol.






## FEL CATH I GYTHRAUL
Mynd i rywle yn gyflym iawn, iawn!

## TYNNU NYTH CACWN YN FY MHEN
Gwneud neu ddweud rhywbeth i wylltio llawer o bobl ar yr un pryd ac ennyn eu






## YN SÂL FEL CI
Yn sâl ofnadwy. Pan fo ci'n sâl, mae'n sâl iawn.

- Tynnwch linell i ddangos ystyr cywir yr idiomau isod:

| | |
|---|---|
| MOR DLAWD Â LLYGODEN EGLWYS | Gwylltio llawer o bobl |
| TYNNU NYTH CACWN YN FY MHEN | Codi yn gynnar iawn, iawn yn y bore |
| FEL TRAED BRAIN | Mynd allan i'r byd i fyw bywyd annibynnol |
| YN SÂL FEL CI | Rhywun yn ysgrifennu'n flêr |
| YR HWCH YN MYND DRWY'R SIOP | Pethau wedi mynd yn flêr ac anhrefnus |
| CYSGU LLWYNOG | Yn sâl ofnadwy |
| FEL CATH I GYTHRAUL | Cymryd arnoch eich bod yn cysgu |
| TRAED MOCH | Person sydd yn dlawd iawn |
| GADAEL Y NYTH | Wedi mynd heb bres |
| CYN CODI CŴN CAER | Mynd i rywle yn gyflym iawn, iawn |

**Melkisedeck: Cerddoriaeth Geltaidd gyda gwreiddiau gwladfaol**



***Emiliano, Marcelo, Nicolás, Carolina, Joaquín, Manuel - criw o bobl ifanc sydd wedi ymuno er mwyn dehongli a chreu cerddoriaeth geltaidd. Ar ôl naw mlynedd o waith caled a llawer o newidiadau, dyma fand sydd wedi dewis efelýchu cerddoriaeth geltaidd fel darn o gelf i´n cymuned ni. Wrth wrando ar y band maent yn cynnig seiniau ffres ond eto seiniau llawn atgofion o wreiddiau ac o genedl Geltaidd Gymreig y Wladfa.***

Mae Melkisedeck yn ensemble gerddorol wedi'i hysbrydoli gan y diwylliant celtaidd. Maent yn efelychu ac yn ail-ddehongli cerddoriaeth Geltaidd yn ei drefniant ei hun. Daw gwreiddiau'r gerddoriaeth werin o wahanol wledydd Ewropeaidd - o ynysoedd Prydain hyd at Iberian Peninsula. Mae gwaith y grŵp yn cynnwys caneuon gwreiddiol sydd wedi cael eu ail-ddehongli yn ogystal â chyfansoddiadau eu hunain. Cafodd y grŵp ei ffurfio yn 2009 pan ddechreuodd yr aelodau eu hastudiaethau ym Mhrifysgol Gelfyddydol Genedlaethol La Plata-Universidad Nacional de Bellas Artes de La Plata. Daw aelodau'r grŵp yn wreiddiol o Batagonia a Buenos Aires.

Mae'r band wedi cyd-weithio gyda chymdeithasau gwahanol sydd yn hyrwyddo'r diwylliant Geltaidd o Comodoro Rivadavia, Trelew, Porth Madryn, La Plata, a Buenos Aires. Gwnaeth y grŵp sawl taith drwy'r Andes sydd yn nhalaith Chubut a Rio Negro, mewn dinasoedd fel Trelew, Porth Madryn; Puerto Montt, Puerto Varas a Frutillar yn Chile. Hefyd, ar hyd yr arfordir yn Playa Union, Las Grutas, Pehuen-có a Monte Hermoso. Ar ôl y teithiau roeddent wedi cymryd seibiant i weithio ar eu halbwm newydd.

Yn 2011 cafodd ei halbwm cyntaf ei recordio yn ninas La Plata. A cafodd ei hail albwm, Vivet, ei greu mis Ionawr 2014, yn Estudio Sonar, Trelew. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cymerodd y grŵp ran mewn dathliadau diwylliant Cymraeg yn y wladfa ac un o'r rhai mwyaf pwysig oedd dathliad Canmlwyddiant a Hanner ers Glaniad y Cymry yn Y Wladfa- Sesquicentenario del Arribo de los Colonos Galeses en La Patagonia. Eleni fe berfformwyd can o'r enw 'Huellas Celtas', sef ´Olion Traed Celtaidd' mewn cyngherddau gyda grŵp Dawnswyr Gwanwyn yn Nhrelew a Phorth Madryn-. Yn ogystal â hyn, mae'n bwysig sôn am eu perfformiadau mewn cystadlaethau ac yn seremoni agoriadol Eisteddfod y Wladfa 2018.

Pwrpas yr ensemble yw i drosglwyddo'r gynulleidfa i oes wahanol drwy gyfansoddiadau hyfryd o alawon sydd yn adfywio hudoliaeth yr hen chwedlau, gan bortreadu'r diwylliannau a chofio doethineb a ffrwythlondeb y Celtiaid.

*Emiliano, Joaquín,Marcelo, Nicolás, Carolina a Manuel.*

**Dyma rai cwestiynau atebodd y grŵp,**

**C: Beth oedd y rheswm y tu cefn i greu band sydd yn canolbwyntio a´r gerddoriaeth geltaidd?**

M: Yn y Brifysgol roeddem oll fel aelodau o´r band yn mwynhau yr un math o lenyddiaeth, ffilmiau a gemau a oedd yn cynnwys elfennau celtaidd a chanoloesol. Oherwydd hyn gwnaethom ni ddechrau archwilio i mewn i hanes cerddoriaeth geltaidd a'i weld yn hynod o ddiddorol. Wedi hyn, tyfodd ein diddordeb am hen offerynnau hynafol o wledydd celtaidd ac fe ddechreuodd y band arbrofi gyda gwahanol fathau o gerddoriaeth o´r adeg hon.

**C: Sut ydych chi'n uniaethu gyda'r diwylliant geltaidd?**

**M:** Credaf mai´r teimlad o ddirgelwch a cholled yr ydym yn uniaethu gyda fwyaf. Mae rhywbeth hudol iawn i hanes a straeon y gwledydd Celtaidd ac yn ein cerddoriaeth rydym eisiau dod a hyn yn fyw i´r gynulleidfa.

**C: Beth ydych chi'n mwynhau ei wneud fwyaf fel band?**

N: Dyn ni´n mwynhau gwneud cerddoriaeth gyda ein gilydd. Rydym yn grŵp agos iawn ac felly yn gallu rhannu gwahanol syniadau ac arbrofi gyda gwahanol gyfryngau o gerddoriaeth gan wybod y bydd pawb yn rhoi barn onest os ydi´r syniadau newydd yn gweddu delwedd y band a´i peidio. Hefyd, rydym oll yn mwynhau'r posibilrwydd o deithio ar draws y wlad, rhannu llwyfannau newydd a phrofiadau newydd gyda bandiau eraill.

**C: Oedd hi´n anodd ychwanegu cerddoriaeth Gymraeg i´r math o gerddoriaeth yr oeddech chi wedi ei astudio?**

M: Roedd yn anodd, ar y dechrau, cyfuno'r gerddoriaeth geltaidd i mewn i´n gwaith oherwydd yn y Wladfa mae mwy o gerddoriaeth côr na cherddoriaeth offerynnol oherwydd rhesymau hanesyddol. Wrth ystyried hyn, roedd rhaid i ni archwilio llawer er mwyn dod o hyd i adnoddau cerddoriaeth Gymraeg werin, traddodiadol a phoblogaidd. Ar ôl cael cyfle i gyd-berfformio gyda grwpiau Cymraeg dawnsio gwerin yn Nhrelew, mae´r grŵp wedi cael eu hysbrydoli i gymreigeiddio delwedd y band ymhellach. Mae prosiectau newydd a´r y gweill a bydd y darn nesaf o gerddoriaeth y mae´r band am ei hysgrifennu yn canolbwyntio ar hanes y gwreiddiau Cymraeg sydd yn yr ardal.

**C: Beth ydi'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol?**


M: Dyn ni dal eisiau datblygu yn gerddorol fel unigolion ac fel grŵp. Dyn ni hefyd yn gobeithio teithio a pherfformio mewn gwledydd lle mae cerddoriaeth geltaidd yn tarddu ohonynt. Ac wrth gwrs, ymchwilio yn ddyfnach i wreiddiau y math yma o gerddoriaeth er mwyn perffeithio profiad y gynulleidfa wrth iddynt wrando ar y cyfrwng arbennig yma o gerddoriaeth gan Melkisedeck.

*http://facebook.com/MelkisedeckCelta*

*http://youtube.com/c/MelkisedeckCelta*



MELKISEDECK




**Profiad Bythgofiadwy!!**

Dafydd Duggan ydw i, cefais i Rhys Evans, Dione Rose a Meilyr Jones gyfle gwych i deithio'r Wladfa dros yr hâf yn hyfforddi amryw o chwaraeon drwy'r Gymraeg i blant. Cafodd y 4 ohonom ni ein dewis i gynrychioli cwrs Astudiaethau Chwaraeon ac Addysg Gorfforol sy'n cael ei gynnal ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Ar ôl cyfuniad o 17 awr o deithio, glaniom ni yn Esquel, yn nghanol yr Andes yn un o feysydd awyr fwyaf peryglus y byd (1,000 metr uwchben lefel y môr!). O fewn awr o gyrraedd Patagonia roeddem ni mewn c yfarfod capel Cymraeg gyda chacennau a te i'w ddilyn. Roedd y croeso yn un cynnes a charedig iawn. Roedd un peth yn sicr, hyd yn oed 8,000 o filltiroedd o Gymru fach, roedd y Gymraeg yn fyw yn y Wladfa.

Treulion ni 4 diwrnod prysur iawn yn Esquel gan dreulio un diwrnod yn Ysgol y Cwm sydd yng nghanol ailddatblygiad i gael adeilad newydd, modern. Fe gafon ni drip i'r Parc Cenedlaethol a thrip i ganol yr Andes i sgïo! Roedd ein arhosiad yn yr Andes yn llawer rhy fyr heb os nag oni bai.

Ar ôl bod gyda'n gilydd yn yr Andes fe arhosodd Rhys a Dione yn Nhrelew, dinas yn Nwyrain yr Ariannin. Tua 20 munud allan o Drelew, arhosodd finne a Meilyr mewn pentref o'r enw'r Gaiman. Roeddem yno am bythefnos yn aros yn nhŷ te Ana Chiabrando Rees – Plas y Coed ac roedd yn bentref hyfryd llawn hanes a thraddodiadau Cymraeg. Tra'n y Gaiman, ces i brofiadau bythgofiadwy. Ces i gyfle i ymweld â chlybiau hoci a phêl-droed ac hyfforddi gyda chlwb rygbi y Ddraig Goch ar y cae tywod, llychlyd. Doeddwn i heb weld ffasiwn beth o'r blaen ond roedd hi'n fraint cael chwarae arno. Rwyf wedi chwarae rygbi ar draws Cymru gyfan, ond roedd yn sicr bod gan y Ddraig Goch gymuned rygbi ffyddlon iawn gyda llawer o unigolion caredig iawn fel Billy Hughes, Ivon Williams a Tony, y cadeirydd.






Yn ogystal â hyn fe gafon ni y cyfle i ymweld a gwersi Cymraeg i oedolion a oedd yn cael eu cynnal yng Ngholeg Camwy sef yr Ysgol Uwchradd gyntaf Gymraeg i gael ei hadeiladu yn y byd. Roedd hi'n deimlad swreal ond bendigedig bod yno. Cafwyd Eisteddfod i bobl ifanc y Wladfa ar ein diwrnod olaf ym Mhatagonia ac roedd ymarferion byth a beunydd yn ein cadw ni'n brysur. Roedd y 4 ohonom ni yn cystadlu gyda Ysgol Gerdd y Gaiman dan arweinyddiaeth Gladys Thomas. Fe gafon ni brofiad arbennig yn canu'n Sbaeneg, Saesneg ac wrth gwrs yn y Gymraeg. Fe ganes i Fflat Huw Puw yn unigol hefyd, y tro cyntaf i mi ganu ar ben fy hun (heblaw yn y gawod!) ond roedd yn brofiad arbennig.

Un o fy hoff bethau am y Wladfa oedd y gwledda fin nos. Mae'n weithgaredd cymdeithasol bwysig ym Mhatagonia ac fe ges i sawl pryd blasus, mae'n tynnu dŵr i fy nannedd wrth feddwl amdanynt nawr. Rhai or nosweithiau hyn oedd; ein noson olaf yn yr Andes gan Margarita a Charlie, Asado penigamp ar fferm Ivon Williams fyny yn Nolavon, swper campus gan deulu Gabro a croeso mawr mewn gwledd gan ddysgwyr Cymraeg Trelew, mae'r rhestr yn ddi-ddiwedd. Roedd yn galonogol iawn cael ein croesawu gan yr holl bobl yma oedd yn y bôn yn ddieithriaid llwyr i ni.

O ganŵio ar y Camwy, i ddawnsio gwerin a chwarae rygbi yn Ysgol Gymraeg y Gaiman – anodd iawn yw rhoi geiriau ar bapur am y corwynt o emosiynau deimlais ym Mhatagonia. Diolch yn fawr i bawb a oedd hynod o garedig yn ystod ein arhosiad. Rhaid i mi ymddiheurio o flaen llaw os nad ydw i wedi enwi un o drigolion yr Andes neu'r Dyffryn wnaeth wneud gymaint o argraff ar fy amser yn y Wladfa. Rydych chi'n gwybod yn iawn pwy ydych chi!

# Pwy fagai gathod!



Mae Luned wedi sôn am amryw o ymwelwyr sydd wedi cael cwmpeini bach i'w cadw'n glyd wrth ymyl y tân yn Nhŷ Camwy - am anifeiliaid anwes yr ydwyf yn sôn a chathod yn bennaf. Roedd Angharad a Gwenno wedi mopio clywed bod cathod bach ym Mhlas y Graig eleni ac y byddai hi'n bosib iddynt gael cwmpeini bach newydd yn y tŷ i'w diddanu. Pan gyrhaeddodd Tecwyn, roedd yn ddigon o ryfeddod; cath ddu a gwyn a llygaid gwyrdd yn pefrio ar bawb a phopeth. Ar ôl mynd â Tecwyn at y milfeddyg iddo gael y moddion cywir, roedd hi'n amser ei gyflwyno i Dŷ Camwy.

I ddechrau, roedd yn ymddwyn fel petai'n hapus â'i gartref newydd ond yn fuan iawn daeth ysfa drosto i ddechrau chwarae cuddiad. Fe ddechreuodd drwy guddiad o dan y cwpwrdd yn y lolfa, wedyn o dan y gwely a hefyd un bore pan oedd y merched yn chwilio amdano roedd Tecwyn y tu ôl i'r peiriant golchi! Yn ogystal â hyn rydym yn credu bod Tecwyn wedi bod yn gwylio gormod o ffilmiau Batman gyda Luned a Fabio cyn dod i Dŷ Camwy gan ei fod yn dod allan yn y nos yn unig pan oedd pawb yn cysgu, yn llenwi ei fol ac yna yn dewis lle newydd i guddiad erbyn y bore.

Pan fyddwn yn galw yn Nhŷ Camwy yn ystod yr wythnos roedd hi wedi dod yn arferiad i mi orwedd ar fy hyd ar y llawr pren i siarad a chadw cwmpeini i Tecwyn rhwng fy ngwersi, lwcus nad oedd pobl yn gallu fy ngweld drwy'r ffenestr neu mi fuasai pawb yn meddwl fy mod i'n dechrau mynd o fy ngho.

Yn anffodus mynd o ddrwg i waeth wnaeth y sefyllfa gyda Tecwyn gan iddo benderfynu ei fod eisiau hyfforddi i fod yn lanhawr simnai o gwmpas Gaiman! A dyna ni doedd dim newid ar ei feddwl - doedd e ddim eisiau bod yn gath tŷ, buasai wedi diflasu ar y ffasiwn beth! Cath weithgar ydoedd a doedd o ddim eisiau loetran o gwmpas tŷ a chael pobl yn ffysian drosto.

Ac i fyny'r simnai y bu Tecwyn am wythnos yn gweithio'n galed i berffeithio'r grefft o lanhau simnai hyd nes i'r dyn cynnal a chadw ddod a dechrau pledu moch coed i lawr y simnai er mwyn gadael i Tecwyn wybod bod yr amser hyfforddi ar ben a bod merched y tŷ eisiau'r tân nwy ymlaen unwaith eto.

Y noson honno ar ôl llenwi ei fol ac yfed llond desgil o lefrith fe gafodd Tecwyn nap bach tu ôl i'r peiriant golchi gan ei fod wedi blino'n lân ar ôl ei holl waith caled yn glanhau simnai Tŷ Camwy. Gadawodd Angharad a Gwenno y drws cefn ar agor iddo rhag ofn ei fod eisiau picio allan yn ystod y nos. Mae'n amlwg fod Tecwyn wedi penderfynu symud ymlaen gyda'i grefft newydd o lanhau simneiau trigolion y Gaiman oherwydd ni ddaeth yn ôl. Ni adawodd rif ffôn ychwaith ond os ydych chi'n gweld cath ddu a gwyn yn cario brwsh simnai, Tecwyn Plas y Graig ydi o yn bendant ac maen nhw'n deud ei fod yn codi pris eitha rhesymol.


Glesni Edwards

## Fy ymweliad ag Amgueddfa'r Fro, Gaiman



Helo! Amy George ydw i, rydw i'n ugain oed ac rydw i'n dod o Bontypridd, yn Ne Cymru. Rydw i wedi dysgu Cymraeg fel ail iaith ers i mi fod yn dair oed, dysgais i'r iaith yn yr ysgol gynradd, ysgol Uwchradd ac nawr rydw i ar fy mlwyddyn olaf yn astudio y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Dim ond fi sy'n gallu siarad Cymraeg yn fy nheulu - dydy fy nhad na fy mam yn gallu siarad Cymraeg ond rydw i'n ddiolchgar iawn iddynt am ddewis rhoi addysg Gymraeg i mi. Yn yr erthygl fer hon, byddaf yn siarad ychydig am Amgueddfa'r Fro ym mhentref hyfryd y Gaiman.

Lleolir yr Amgueddfa yn hen orsaf trên y Gaiman, dw i'n gweld hyn yn ddiddorol iawn yn ei hun yn enwedig gan fy mod i mor gyfarwydd gyda sefyll ar blatfform ym Mhontypridd i ddal trên i fynd i Brifysgol Caerdydd. Wrth sefyll yno, roeddwn i'n gallu dychmygu trigolion y Wladfa yn sefyll yn amyneddgar ar y platfform yn disgwyl i'r trên ddod drwy'r twnel hudolus a minnau yn sefyll ar yr un platfform 153 o flynyddoedd wedyn. Profiad arbennig iawn i mi!




Yn ystod fy amser yn yr amgueddfa cwrddais i Fabio González sydd yn feistr ar hanes y Wladfa ac sydd yn gweithio yn galed iawn i rhedeg yr amgueddfa drwy'r flwyddyn. Mae'r amgueddfa ar agor bob prynhawn o dri o'r gloch tan saith o'r gloch ac ynddi mae llawer o arteffactau diddorol iawn yn cysylltu â phobl y Wladfa eu brwydrau a'u buddugoliaethau wrth iddynt ymdrechu i sefydlu y Wladfa Gymreig. Yng nghasgliad yr amgueddfa, mae llawer o waith celf a wneir gan y plant a phobl ifanc ar y Mimosa, gwaith celf hefyd gan yr enwog Kyffin Williams a oedd wrth ei fodd gyda Phatagonia, arteffactau llestri o Gymru, arteffactau hen orsaf trên y Fro, a hen ddogfennau sy'n ymwneud â setlwyr cyntaf y Wladfa.

Mae'n le bendigedig ac yn fath o le y buasai pobl yn gallu mynd yn ôl nifer o weithiau a darganfod rhywbeth newydd bob tro! Mwynheuais i fy amser yn yr Amgueddfa a fy sgyrsiau diddorol gyda Fabio. Roedd hi'n fraint cael cyfarfod rhywun a oedd gyda gymaint o wybodaeth ddiddorol am hanes Patagonia ac fe ddysgais i lawer ganddo.

Byddwn i'n argymell yn gryf i bawb ymweld ag Amgueddfa'r Fro. Mae'n adeilad llawn trysorau! Felly ni chewch chi eich siomi, dw i'n sicr o hynny.

AMY GEORGE - YSGOLORIAETH SANTANDER 2018



## Rhaglen Radio Gampus!!

Dechreuodd y rhaglen arbennig hon ar ddiwedd y 60'au gyda Elvey Mac Donald - dim ond 10 munud oedd y rhaglen ar yr awyr i ddechrau!

Wedyn yn y 70'au fe ddechreuodd Tegai Roberts ddarlledu "Rhaglen Gymdeithas y Camwy" ac fe ymunodd Luned Roberts de González gyda ei chwaer tua'r flwyddyn 2000. Nawr, mae Luned dal wrth y llyw yn ysgrifennu a darlledu yn rheolaidd. Erbyn hyn, mae dau o gynorthwywyr gyda Luned ar y sioe radio sef Lili Evans a Ricardo Evans sy'n helpu i ddarlledu a dewis cerddoriaeth Gymraeg fywiog.

Cofiwch gefnogi a gwrando ar y raglen wych hon bob nos Wener - 16.45 tan 18.00.

Ricardo Evans